

## Bant â ni unwaith eto!



*Croeso i ail gyhoeddiad ar-lein yn unig Pobl Dewi. Yr ydym yn bwriadu argraffu rhifyn Rhagfyr, fel arfer, ond yn y cyfamser gobeithio y cewch llawer i'ch diddori yn y rhifyn hwn, wrth i ni faglu ymlaen yn y 'normal newydd' medd Tessa Briggs, Golygydd Reolwr*

Penderfynwyd gyhoeddi ar-lein yn unig eto gan fydd llawer o'n heglwysi wedi agor, neu agor yn llawn, hyd o leiaf fis Medi. Bydd ffurflenni asesu risg, a gofynion eraill, unwaith y cânt eu cadarnhau, yn caniatáu i eglwysi i agor, yn fynydd i'w ddringo. Mewn llawer o achosion, ni fydd y rheolau yn gallu cael eu cyflawni am dipyn. Yn ei erthygl 'Covid-19 a'r sefyllfa sy'n datblygu' y mae Archddiacon Paul Mackness wedi gosod y canllawiau yn ofalus i wasanaethau eglwysig, ymgynnull, cynadleddau a rheolaeth, sy o gymorth mawr.

I'r rhan fwyaf ohonom, y mae'r cyfyngiadau ar ein bywyd bob dydd yn llacio'n raddol. Ond beth am y rhai a fu'n cysgodi? Y mae llawer yn ofnus iawn am fynd allan, wedi bod yn cilio adre am fwy na 6 mis, ac mae canlyniad y cloi a'r pandemig ar iechyd meddwl rheiny o bob oed nawr yn ofid enfawr. Yn yr adran *Iechyd a Lles* fe welwch sawl erthygl sy'n ymateb i'r mater hwn ac yn gallu cynnig cymorth.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'r rhai sy'n byw yn Beirut, y mae eu bywydau wedi eu chwalu gan y ffrwydrad diweddar. Yn ei erthygl *Gwrthod cael ein maeddu* y mae Archddiacon John Holdsworth yn taflu goleuni ar y sefyllfa ofnadwy, ac fe gofiwn rheiny i gyd yn ein gweddiau.

Fe wnaeth BBC ac S4C gam gwael â ni pan wnaethon nhw orffen darlledu *Sunday Worship* a *Dechrau Canu Dechrau Canmol* ar Fehefin 21ain a diwedd Gorffennaf yn eu tro. Er y gwn bod gwasanaethau ar gael ar y radio ac ar sianelau eraill, roedd y rhai heb fynediad i'r Rhyngwrwyd yn dibynnu'n hollol ar y rhaglenni hynny am gysur. Nid yw'n gofyn gormod i gael gwasanaethau byr, wedi eu darlledu gan y sianeli hyn sy'n dal i gael ymddiriedaeth gan gymaint, ar ddydd Sul, o leia tra bod bywydau cymaint yn cael eu caethiwo gan Covid-19.

Y mae'r rhifyn hwn o Pobl Dewi yn edrych i'r dyfodol, ond mewn llawer o'r erthyglau, yn cyfeirio at y gwersi a ddysgwyd yn ystod y 6 mis diwethaf. Dyddiad cau i dderbyn erthyglau i rifyn Rhagfyr yw Tachwedd 4ydd. Cysylltwch â fi os hoffech chi gyfrannu ([editorpd@churcheinwales.org.uk](mailto:editorpd@churcheinwales.org.uk))